

ADRODDIAD AR GOFRESTR BUDDIANNAU'R AELODAU

Y CYNULLIAD CYNTAF: Mai 1999 - Ebrill 2003

Rhagair

1. Yn ôl Adran 72 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 4 mae'n ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gynnal a chyhoeddi cofrestr o fuddiannau Aelodau'r Cynulliad. Caiff y gofrestr ei diweddarau bob chwarter.
2. Mae'n ofynnol i'r Aelodau gofrestru unrhyw fuddiannau perthnasol cyn pen wyth wythnos ar ôl tyngu'r llw teyrngarwch a chofrestru unrhyw newidiadau i'r buddiannau hynny cyn pen pedair wythnos. Mae Adran 72 (6)(a) Deddf Llywodraeth Cymru yn pennu ei bod yn drosedd i unrhyw Aelod gymryd rhan yn nhrefodion y Cynulliad heb gofrestru unrhyw fuddiannau perthnasol fel a nodir yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 4. Cyfrifoldeb yr Aelodau yn unig yw cydymffurfio â'r dyletswyddau'n ymwneud â chofrestru a datgan buddiannau, ond gallant ofyn am gyngor gan Swyddfa'r Llywydd.

Trothwyon

3. Mae Rhan 4 yr Atodiad i Reol Sefydlog 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu trothwyon ac mae'n rhaid i Aelodau'r Cynulliad gofrestru rhoddion, lletygarwch ac unrhyw fuddion neu fanteision materol eraill sydd uwchlaw'r trothwyon hynny. Yn dilyn penderfyniad y Cynulliad ym mis Mai 1999, sefydlwyd trothwy o £125 ar gyfer cofrestru rhoddion (megis arian, llestri gwydr ac ati). Ar gyfer buddion eraill (megis tocynnau chwaraeon ac ati) y terfyn yw 0.5% o'u cyflog unigol (cyfwerth â tua £180 ar hyn o bryd).
4. Mae rhai aelodau wedi dewis cofrestru nifer o faterion sy'n is na'r trothwyon y cytunwyd arnynt. Mae ganddynt yr hawl i wneud hyn os ydynt yn dymuno, ond rhaid pwysleisio bod yr Aelodau hynny sydd wedi talu sylw i'r trothwyon wedi cydymffurfio yn benodol ac yn llwyr â'r rheolau a bennwyd ym mhenderfyniad y Cynulliad drwy wneud hynny.

Categoriâu'r Buddiannau

5. Y Llywydd a bennodd y ffurflen i Aelodau'r Cynulliad gofrestru'u buddiannau arni. Mae 11 o gategoriâu iddi, sef:
 - *Categori 1: Swydd(i) Cyfarwyddwr*
 - *Categori 2: Cydnabyddiaeth, Cyflogaeth, Swyddi, Galwedigaeth, etc*
 - *Categori 3: Enwau Cleientau*
 - *Categori 4: Rhoddion, lletygarwch, buddion materol neu fantais faterol*
 - *Categori 5: Tâl neu fudd materol arall*

- *Categori 6: Nawdd ariannol*
- *Categori 7: Ymweliadau tramor*
- *Categori 8: Tir ac Eiddo*
- *Categori 9: Cyfranddaliadau*
- *Categori 10: Cyrff cyhoeddus*
- *Categori 11: Seiri Rhyddion*

Archwilio'r Gofrestr

6. Cedwir Cofrestr Buddiannau'r Aelodau yn y Swyddfa Gyflwyno yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'n agored i'r cyhoedd ei harchwilio, naill ai ar y Rhyngrwyd neu yn y Swyddfa Gyflwyno ei hun yn ystod ei horiau agor. Gellir gofyn am gopiâu o fanylion unigol yn unol ag Adran 119 o Ddeddf Llywodraeth Cymru.

Y Swyddfa Gyflwyno

Lorraine Barrett Llafur (De Caerdydd a Phenarth)

- 1. Swydd(i) Cyfarwyddwr**
 - Cyfarwyddwr di-dâl Prosiect Ieuenctid Penarth (ymddiriedolaeth elusenol). Ei gwr yn gyfarwyddwr Penarth Pictures Cyf.
- 2. Cyflogaeth**
 - Ei gwr yn Asiant/Rheolwr hunangyflogedig ym myd cerddoriaeth
- 3. Enwau Cleientau**
 - Mae gan ei gwr nifer o fandiau roc a rôl a chantorion unigol
- 6. Nawdd ariannol**
 - Cyfraniadau at etholiad 1999; Undeb y Gweithwyr Trafnidiaeth a Chyffredinol (T&GWU) £500 (aelod).
 - Y Blaid Gydweithredol £500 (aelod), RMT £500.
- 10. Aelodau/Cadeiryddion cyrff sy'n derbyn arian gan y Cynulliad.**
 - Llywodraethwr Ysgol Gynradd Albert Road, Penarth.
 - Aelod o Bwyllgor Rheoli Canolfan Gyngori Penarth.
 - Ei gwr yn y broses o wneud cais am Grant oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru.
 - Ymddiriedolwr i Brosiect Celfyddydau Cymunedol Penarth (y corff hwn yn derbyn arian y loteri i gynnal gwyl(iau) celfyddydol bob blwyddyn)
 - Ymddiriedolwr i Gymdeithas Datblygu Cymunedol Penarth (yn y broses o wneud cais am statws elusen ac wedi derbyn grant cychwyn bychan ar gyfer cyrff o'r sector gwirfoddol. Nod y gymdeithas yw helpu sefydliadau cymunedol eraill i ddatblygu)
 - Wedi rhoi'r gorau i fod yn aelod o bwyllgor rheoli Canolfan Gyngori Penarth ar 28 Mehefin 2002.

Mick Bates Democrat Rhyddfrydol (Sir Drefaldwyn)

- 1. Swydd(i) Cyfarwyddwr**
 - Cadeirydd Primestock Producers Cyf (Cwmni Cydweithredol Ffermwyr).
- 2. Cyflogaeth**
 - Partner gyda'i wraig mewn busnes fferm.
 - Ei wraig yn Brifathrawes, arweinydd tîm CA2 mewn Mathemateg, Arolygydd i Estyn, Asesydd Trothwy, grwp adolygu profion ACAC ar gyfer Mathemateg CA1 a grwp ACAC ar gyfieithu ar gyfer Mathemateg Cynradd
- 4. Rhoddion, lletygarwch etc.**
 - Tocyn a lletygarwch gan BT i Gêm Rygbi'r 6 Gwlad, Cymru v Ffrainc.
- 8. Tir ac Eiddo**
 - Newid mewn Busnes Teulu. Mae'r mab wedi

dod yn bartner, felly BM, MJ a DT Bates yw'r enw yn awr. Gwerth £150,000.

- Mae mast Vodaphone wedi cael ei godi ar y Fferm.

10 Aelodau/Cadeiryddion cyrff sy'n derbyn arian gan y Cynulliad

- Hyrwyddo Cig Oen a Chig Eidion Cymru
- Sefydliad Iechyd Gwledig.

Peter Black Democrat Rhyddfrydol (Gorllewin De Cymru)

2. Cyflogaeth

- Cynghorydd Dinas a Sir Abertawe.
- Cyflogir ei bartner gan Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru (Nid yw'n Berthnasol Mwyach).
- Cyflogir ei wraig gan Gymdeithas Tai Abertawe.

4. Rhoddion, lletygarwch, etc.

- Cas cardiau busnes oddi wrth Ffederasiwn y Busnesau Bach; Car Model oddi wrth Goleg Llandrillo – gwerth llai na £5; Dau ddwsin o boteli Cwrw'r Cynulliad oddi wrth Whitbread.
- 'Cerdyn Caerdydd' gan Cardiff Marketing gwerth £12 gyda hyd at werth £50 o fanteision y gellir gwneud cais amdanynt.
- Cas dogfennau lledr oddi wrth Tarmac plc.
- Cinio gan Gymdeithas Feddygol Prydain, llai na £11.
- Tocyn a lletygarwch gan British Telecom i gêm Cymru v Japan yng Nghwpan Rygbi'r Byd, ddydd Sadwrn 9 Hydref 1999. Tocyn a lletygarwch gan Ford UK i gêm Cymru v Awstralia yng Nghwpan Rygbi'r Byd ddydd Sadwrn 23 Hydref 1999.
- Blwyddlyfr HTV gwerth £27.50 oddi wrth HTV Wales
Cinio gan unsain.
- Tocyn a lletygarwch yn rownd derfynol Cwpan yr FA yn Stadiwm y Mileniwm ar 12 Mai 2001 gan BT; Rhodd o gloc bach yn dathlu rownd derfynol Cwpan yr FA
- Dau docyn a lletygarwch yng Nghyngerdd y Stereophonics, Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd a chael CD y Stereophonics yn anrheg.

5. Tâl neu fudd materol arall

- £9180 o'r swydd fel Cynghorydd ar Gyngor Dinas a Sir Abertawe.
- Ffioedd darlledu achlysurol gan y BBC (heb fod dros £80 fel arfer).

6. Nawdd ariannol

- Talwyd costau'r etholiad gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, a Democratiaid Rhyddfrydol Gorllewin De Cymru.

8. Tir ac Eiddo

- Cartref yn Abertawe.
 - Mae fy mhartner yn berchen ar eiddo yn Nhreganna, Caerdydd, sy'n cael ei osod yn fasnachol (Nid yw'n Berthnasol Mwyach).
- 10. Aelodaeth/Cadeiryddiaeth cyrff sy'n derbyn cyllid gan y Cynulliad**
- Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.
 - Llywodraethwr Ysgol Gyfun Pentrehafod, Abertawe.
 - Llywodraethwr Ysgolion Babanod ac Iau Brynhyfryd, Abertawe.
 - Llywodraethwr Coleg Prifysgol Abertawe.

Nicholas Bourne LLB LLM Ceidwadwr (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

- 1. Swydd(i) Cyfarwyddwr**
 - Un o Gyfarwyddwyr Canolfan Ewropeaidd Cymru
- 2. Cyflogaeth**
 - Bargyfreithiwr (nad ydyw'n ymarfer). Awdur, darlithydd achlysurol, ffioedd achlysurol yn deillio o ddarlledu.
- 4. Rhoddion, lletygarwch, etc**
 - Tocyn a lletygarwch i gêm agoriadol Cwpan Rygbi'r Byd gan IRB Cymru ar 1/10/99.
 - Tocyn a lletygarwch i gêm derfynol Cwpan Rygbi'r Byd ar 6/11/99 gan British Telecom.
 - Llun gan Glwb Ceidwadwyr Aberdaugleddau.
 - Tocyn a lletygarwch gan BT ar gyfer gem rygbi Cymru v Lloegr ar 3 Chwefror 2001.
 - Tocyn a lletygarwch gan BT yn rownd derfynol Cwpan yr FA yn Stadiwm y Mileniwm ar 12 Mai 2001.
 - Tocyn a lletygarwch gan Western Power Distribution i weld Cymru v Tonga – 17.11.01.
 - Tocyn a lletygarwch gan y Western Mail i weld Cymru v Awstralia – 25.11.01.
 - Tocyn a lletygarwch gan Western Power ar gyfer gêm rygbi Cymru v yr Eidal 02.03.02.
 - Tocyn a lletygarwch gan BT ar gyfer gêm rygbi Cymru v yr Alban 06.04.02.
 - Tocyn a lletygarwch gan BT ar gyfer gêm derfynol Cwpan yr FA 4 Mai 2002.
- 5. Tâl neu fudd materol arall**
 - Bargyfreithiwr nad ydyw'n ymarfer; darlithydd gwadd ym Mhrifysgol Hong Kong (llai na £5,000);
 - Tiwtor ymgynghorol Tolleys Publishing (llai na £5,000); Cyhoeddwr gwerslyfrau cyfreithiol – Cavendish Publishing (llai na £5,000).
- 7. Ymweliadau Tramor**
 - Ymweliad â Brwsel gyda'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd.
 - Talodd Prifysgol Hong Kong am y daith i Hong Kong a'r ddarlith.

9. Enwau Cwmnïau (Cyfranddaliadau)

- British Airways; Rolls Royce; Alliance Unichem; British Airports Authority; Royal Bank of Scotland (llai na £5,000).

Rosemary Butler Llafur (Dwyrain Casnewydd)

1. Swydd(i) Cyfarwyddwr

- Cadeirydd Bwrdd Amgueddfa Diwydiant a Môr Abertawe

2. Cyflogaeth

- Ei gwr - wedi ymddeol, yn derbyn pensiwn gan Goleg Prifysgol Cymru Casnewydd.

10.

Aelodaeth/Cadeiryddiaeth cyrff sy'n derbyn cyllid gan y Cynulliad

- Llywodraethwr – Coleg Prifysgol Cymru Casnewydd. WEDI YMDDISWYDDO ERS 7.12.99.
- Cymrawd Anrhydeddus o Goleg Prifysgol Cymru Casnewydd.
- Cadeirydd NEWCO – Cwmni a sefydlwyd i adeiladu'r Amgueddfa Diwydiant a Môr yn Abertawe.
- Cadeirydd Bwrdd Amgueddfa Diwydiant a Môr Abertawe

Eleanor Burnham Democrat Rhyddfrydol (Gogledd Cymru)

1. Swydd(i) Cyfarwyddwr

- Cyfarwyddwr Bwrdd Darlledu'r Cynulliad
- Ymddiriedolwr i Gronfa Bensiwn y Cynulliad

2. Cyflogaeth

- Ei gwr yn Ymgynghorydd sy'n gweithio ar ei liwt ei hun i 'Gyrfa Cymru' – ymgynghorydd hunangyflogedig (Cysylltiadau Addysg a Busnes).
- Ei nith yn gweithio i Fforwm Amgylcheddol Hiraethog, Cyngor Sir Conwy a Sir Ddinbych – contract dros dro Amcan Un hyd fis Mawrth 2001.

3. Enwau Cleientiaid (gwasanaethau)

- Cleientiaid ei gwr: Gyrfa Cymru.

4. Rhoddion, lletygarwch, etc.

- Tocyn i gêm bêl-droed Cymru yn erbyn yr Eidal, a lletygarwch.

7. Ymweliadau tramor

- SERCO/NED 23 a 24 Ionawr. Taith i'r Iseldiroedd i ganfod ffeithiau am reilffyrdd (aros yn Utrecht am noson).

Alun Cairns Ceidwadwr (Gorllewin De Cymru)

2. Cyflogaeth

- Ffioedd a threuliau achlysurol yn deillio o ddarlledu.
- Banc Lloyds TSB, 5 Cathedral Road, Caerdydd – Cyflogaeth fel Ymgynghorydd Datblygu Busnes, yn gyfrifol am hyfforddi staff a datblygu medrau. Tâl yn cynnwys car cwmni sydd wedi'i

gyllido'n llawn. Nid yw Lloyds TSB yn ei gyflogi bellach.

- Ei wraig – cyfreithiwr ym maes Gofal Cymunedol ac Addysg – darperir cymorth rhan-amser ar gyfer gwaith achos arbenigol.

4. Rhoddion, lletygarwch, etc.

- Lletygarwch a thocyn i gêm Cymru v Canada ar 21/8/99 gan British Telecom.
- Lletygarwch a thocyn i gêm Cymru v yr Ariannin yn Stadiwm y Mileniwm ar 1/10/99 gan British Telecom.
- Lletygarwch a thocyn gan British Telecom ar 23.10.99.
- Lletygarwch a thocyn i Gêm Hoci Iâ Cardiff Devils ar 21.11.99.
- Lletygarwch a thocyn i gêm Cymru v Ffrainc ar 5 Chwefror gan Fwrdd Swyddfa'r Post.
- Ymweliad y BBC i'r Weriniaeth Siec i ymchwilio i drosglwyddo swyddi yn y diwydiant electronaidd o Gymru i Ddwyrain Ewrop.
- Paratowyd gwefannau aluncairns.com ac aluncairns.co.uk gan ilypsys.com

7. Ymweliadau Tramor

- Ymweliad ag Israel rhwng 6/1/03-10/1/03 – trefnwyd y daith gan Ganolfan Gwybodaeth Israel. Dan ofal y Weinyddiaeth dros Faterion Tramor yn Israel.

8. Tir ac Eiddo

- Rhan-berchennog ar gae amaethyddol yn Fferm Gwynfaen, Llchwyr, a allai dyfu'n fwy na'r 'gwerth sylweddol' a nodwyd petai cynllunio ar gyfer datblygu yn cael ei ganiatáu.

9. Enwau cwmnïau (Cyfranddaliadau)

- Cyfranddaliadau Lloyds TSB.
- Network Organisation LTD.

Christine Chapman Llafur (Cwm Cynon)

2. Cyflogaeth

- Darlithydd dros dro achlysurol ym Mhrifysgol Caerdydd. Nid yw'n ddarlithydd dros dro mwyach.
- Ei gwr yn feddyg teulu cofrestredig. Partner mewn Practis yng Nghaerffili.

4. Rhoddion, Lletygarwch etc.

- Gwestai BT (gyda chinio) yn y gêm 3^{ydd}/4^{ydd} safle yng Nghwpan Rygbi'r Byd.
- Llety dros nos yng Nghynhadledd Unsain 4/2/00.
- Gwestai i BT – Gêm Rygbi Rhyngwladol.
- Gwestai BT mewn cyngerdd Bon Jovi.

6. Nawdd Ariannol

- Cyfraniad o £500 at etholiad 1999 gan y Blaid

Gydweithredol a £750 gan Unsain.

7. Ymweliadau Tramor

- Ymweliad â China gyda Chyfraniad Gwleidyddol Menywod y Cyngor Prydeinig gan gynnwys cynhadledd a chyfarfodydd o 28 Hydref i 4 Tachwedd 2000, gwerth llai na £5,000.
- 4/12/2000 ymweld â Prague â'r BBC i wneud rhaglen ar ehangu.
- Ymweliad ag Unol Daleithiau'r America fel aelod o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd – noddwyd gan Adran Materion Tramor yr Unol Daleithiau trwy'r rhaglen wirfoddol i ymwelwyr.
- Ymweliad â Belfast fel gwestai y Cyngor Prydeinig i fynychu Seminar – Creu Democratiaeth.
- Ymweliad ag Azerbaijan gel gwestai y Cyngor Prydeinig – Cynhadledd: Menywod, Cymdeithas a Gwleidyddiaeth.

10. Aelodaeth/Cadeiryddiaeth cyrff sy'n derbyn cyllid gan y Cynulliad

- Aelod o'r Sefydliad Cyfarwyddyd Gyrfaoedd.
- Cymrodoriaeth Allanol gyda Phrifysgol Morgannwg.

Cynog Dafis Plaid Cymru (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

2. Cyflogaeth

- Aelod Cynulliad yn unig.
- Mae'r wraig yn cael ei thalu am waith cyfieithu.
- Y Cwmni Opera Cenedlaethol, gwerth y tocynnau £80.
- Bwyd – Associated British Ports £30.

4. Rhoddion, Lletygarwch etc.

7. Ymweliadau tramor

- Dulyn a Galway i drafod Datblygu Economaidd a'r Wyddeleg.

8. Tir ac Eiddo

- 8 erw o dir amaethyddol.
Ty yng Ngheredigion.
Fflat yng Nghaerdydd.

Jane Davidson Llafur (Pontypridd)

2. Cyflogaeth

- Dim, heblaw fel Aelod Cynulliad â chyflog ychwanegol fel Gweinidog.
- Gwr yn ddarlithydd yng Ngholeg Pontypridd, Ysgrifennydd NatFHE (FESC), Dirprwy Gadeirydd NATFHE – Cymru.

7. Ymweliadau tramor

- Bwyd a llety gan Lywodraeth Ciwba fel rhan o wahoddiad i siarad mewn Cynhadledd Addysg Uwch 6-8 Chwefror 2002

Ron Davies Llafur (Caerffili)

2. Cyflogaeth

- Aelod Seneddol
- Ei bartner yn gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

5. Tâl neu fudd materol arall

- Taliadau achlysurol am annerch ac am waith newyddiadurol – dim mwy na £500 y flwyddyn.

10.

Aelodaeth/Cadeiryddiaeth cyrff sy'n derbyn cyllid gan y Cynulliad

- Cadeirydd 'Caerphilly Woodlands Trust' (Nid yw'n derbyn cyllid gan y Cynulliad)

Andrew Davies Llafur (Gorllewin Abertawe)

4. Rhoddion, Lletygarwch etc.

- Tocynnau (cost £40) i gêm Cymru v Japan yng Nghwpan Rygbi'r Byd a oedd yn cynnwys lletygarwch gan Gonsortium o Abertawe sy'n cynnwys Athrofa Abertawe ac ATS.
- Tocynnau gêm derfynol Cwpan Rygbi'r Byd gan HTV a oedd yn cynnwys lletygarwch. Rhoddwyd gwerth y tocynnau – £250 – i elusen.
- Tocynnau i gêm Cymru v yr Alban yng nghystadleuaeth y 6 gwlad – gwestai i BBC Cymru £30.00.
- Tocyn i gêm Llanelli v Abertawe yng Nghwpan Her URC.
- Tocyn i gêm Cymru v Brasil £10.00 – Gwestai i Fwrdd Croeso Cymru.

6. Nawdd ariannol

- Talwyd costau'r etholiad (Mai 1999) yn gyfan gwbl gan y Blaid Lafur yn Etholaeth Gorllewin Abertawe.

10.

Aelodaeth/Cadeiryddiaeth cyrff sy'n derbyn cyllid gan y Cynulliad

- Llywydd (Swydd Anrhydeddus) Cymdeithas Tai Caer Las (Abertawe) (ni dderbynnir tâl).
- Aelod o Fwrdd Rheoli'r Ganolfan Genedlaethol dros Bolisi Cyhoeddus, Prifysgol Abertawe (ni dderbynnir tâl).
- Noddwr Tan Dance (Prosiect Dawns Cymunedol yn Abertawe a Chastell Nedd Port Talbot).
- Llywodraethwr Ysgol Uwchradd Dynevor, Abertawe (ni dderbynnir tâl).
- Llywodraethwr Coleg Abertawe (ni dderbynnir tâl).
- Is-Lywydd Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Calon Cymru.

Jocelyn Davies Plaid Cymru (Dwyrain De Cymru)

1. Swydd(i) Cyfarwyddwr

- Aelod Gweithredol o Gymdeithas Deddf Gyhoeddus a Hawliau Dynol Cymru. (Ni

dderbynnir tâl).

- Aelod o Fwrdd Ymgynghorol Canolfan Materion Cyfreithiol Cymru, Aberystwyth (ni dderbynnir tâl).

2. Cyflogaeth

- Cyflwynydd gwadd rhaglen Powerhouse i ITN 23 Mai-25 Mai – Gwerth £1,750.
- Rhaglen ddadansoddi'r BBC ar Radio 4, 20 Gorffennaf - £50.
- Rhaglen Any Questions y BBC £220. Cyflogir ei phartner yn rhan-amser yn Swyddfa'r Etholaeth.

4. Rhoddion, lletygarwch, etc

- Tocynnau a lletygarwch gan HTV iddi hi, ei phartner a'i mab i gêm Cymru v Awstralia yng Nghwpan Rygbi'r Byd, ddydd Sadwrn 23 Hydref 1999.
- 18 Mawrth – Taith trê'n goffaol o Gasnewydd i Fangor a lletygarwch iddi hi a'i mab gan gwmni trenau Wales and West i ddathlu 150 o flynyddoedd ers agor Pont Britannia.
- 5 tocyn a lletygarwch gan Undeb Rygbi Cymru iddi hi a'i theulu ar gyfer gêm Cymru yn erbyn yr Alban ym mhencampwriaeth y chwe gwlad ar 19 Mawrth.
- Tocyn a lletygarwch i gyngerdd Ffarwel Tina Turner yn Stadiwm y Mileniwm.
- Gwobrau Gwleidyddol Channel 4 Gwesty a llety a theithio.

6. Nawdd ariannol

- Talwyd costau'r etholiad gan Plaid Cymru, the Party of Wales.

7. Ymweliadau Tramor

- 6, 7, 8 Hydref 2002. Ymweld â Gibraltar. Llywodraeth Gibraltar yn darparu'r hediad a'r llety er mwyn arsylwi yn eu refferendwm ar fater sofraniaeth ar y cyd rhwng Prydain a Sbaen.

Janet Davies Plaid Cymru (Gorllewin De Cymru)

1. Swydd(i) Cyfarwyddwr

- Un o Gyfarwyddwyr Cwmni Darlledu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

2. Cyflogaeth

- Pensiwn galwedigaethol gweddwr gan SA Brain & Co.Cyf.

4. Rhoddion, lletygarwch etc

- Llungopiwr ail-law gwerth tua £1,500 ar fenthyg oddi wrth Phoenix Digital, 389 Ffordd Casnewydd, Caerdydd.
- Treuliau – teithio a llety – i Gynhadledd Seneddwr sy'n Ferched yng Nghaeredin 27/9/01-30/9/01. Noddwyd y gynhadledd gan

Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Talwyd y treuliau gan y Sefydliad Democrataidd Cenedlaethol, Washington DC a Phartneriaeth Fydeang Vital Voices.

- 6. Nawdd ariannol**
- Talwyd costau'r etholiad gan Blaid Cymru, the Party of Wales.
- 9. Enwau cwmnïau (Cyfranddaliadau)**
- S A Brain & Co. Cyf, Heol Eglwys Fair, Caerdydd. (Llai na £25,000).
- 10. Aelodaeth/Cadeiryddiaeth cyrff sy'n derbyn cyllid gan y Cynulliad**
- Llywodraethwr Ysgol Gynradd Llanhari. Llywodraethwr Ysgol Gyfun Llanhari.

Glyn Davies Ceidwadwr (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

- 2. Cyflogaeth**
- Pennaeth, T E Davies a'i Fab, Ffermwyr Da Byw.
 - Ei briod yn bartner yn T E Davies a'i Fab ac yn ymchwilydd rhan amser i Glyn Davies AC.
- 8. Tir ac eiddo**
- Fferm Da Byw ym Mhowys.
 - Adeiladau yn y Trallwng a Chroesoswallt (Tai Bwyta) – Ddim yn berthnasol bellach.
 - Eiddo preswyl â thir.
 - Eiddo ym Mae Caerdydd.
 - Cyfran mewn eiddo yn y Trallwng – Ddim yn berthnasol bellach.
 - Ei briod yn berchen ar eiddo preswyl â thir.
- 9. Enwau cwmnïau (Cyfranddaliadau)**
- Ffermwyr Wynnstay a Chlwyd. Farmers Ferry.
- 10. Aelodaeth/Cadeiryddiaeth cyrff sy'n derbyn cyllid gan y Cynulliad**
- Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr. Undeb Amaethwyr Cymru.
 - Cymdeithas y Tirfeddianwyr Cefn Gwlad.
 - Farmers Ferry Cyf.
 - Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

David Davies Ceidwadwr (Sir Fynwy)

4. Rhoddion, lletygarwch, etc.

- Cinio ar gyfer Pwyllgor Gefeillio Trefynwy y talwyd amdano gan Sony UK, cost £130 ar y mwyaf.
- Cinio a thocyn i gêm Rygbi ryngwladol ar 28/8/99.
- Adloniant, prydau bwyd a diodydd gan Lywodraeth Iwerddon tra'n ymweld â Dilyn gyda John Marek.
- Cinio yn Rasys Cas-gwent 27 Rhagfyr cyn Grand National Cymru – Coral Eurobet gwerth tua £50.
- Tocyn a lletygarwch yng ngêm bêl-droed Cymru v Ukrain gan British Telecom.
- Tocyn a lletygarwch gan Opera Cenedlaethol Cymru.

5. Tâl neu fudd materol arall

- Rhaglen Hacio S4C, talwyd y siec gan HTV.
- Ffioedd achlysurol yn deillio o ddarledu, tua £250 y flwyddyn.

7. Ymweliadau Tramor

- Ymweld â Dilyn ar draul y Cynulliad.
- Ymweld â Brwsel ar draul y Cynulliad.
- Ymweld â'r Iseldiroedd a rheilffordd ysgafn y Dociau i gwrdd â chynrychiolwyr Serco a thrafod eu gwaith – 30 a 31 Ionawr 2003 – talwyd gan Serco/NS.

Geraint Davies Plaid Cymru (Rhondda)

2. Cyflogaeth

- Unig berchennog y ddwy fferyllfa gymunedol yn Nhreherbert a Threorci ynghyd â siop fferylliaeth yn Nhreorci, incwm £4,457.
- Merrill Davies (ei wraig) – rheolwraig Fferyllfeydd Geraint R Davies.

4. Rhoddion, lletygarwch, etc.

- Tocyn Cymru v Ffrainc ar 28/8/99 gan BT a Chymru v yr Ariannin ar 1/10/99 gan Mills and Reave.
- Cinio gyda Chymdeithas Tai y Rhondda ar 25/8/99.

6. Nawdd Ariannol

- Costau Etholiad gan Blaid Cymru the Party of Wales.

8. Tir ac eiddo

- Tair siop yn Nhreherbert a Threorci. (Nid yw hyn yn berthnasol bellach).
- 1 ty yn Nhreherbert, y Rhondda.
- Merrill Davies (ei wraig) – perchennog swyddfa'r etholaeth ac mae'n derbyn incwm ar ffurf rhent.

9. Enwau cwmnïau (Cyfranddaliadau)

- Alliance Unichem CCC. CGNU.

10. Aelodaeth/Cadeiryddiaeth cyrff sy'n derbyn cyllid gan y Cynulliad

- Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.
- Aelod o Gymdeithas Tai y Rhondda a Chymdeithas Tai Aelwyd

Richard Edwards Llafur (Preseli Sir Benfro)

4. Rhoddion, lletygarwch etc.

- Cas cardiau busnes Ffederasiwn y Busnesau Bach (F.S.B)
- Car model Welsh Director.

6. Nawdd Ariannol

- Talwyd holl gostau'r etholiad (Mai 1999) gan y Blaid Lafur yn etholaeth Preseli Sir Benfro

8. Tir ac eiddo

- Eiddo yng Nghaerfyrddin

Dafydd Elis-Thomas Plaid Cymru (Meirionnydd Nant Conwy)

1. Swydd(i) Cyfarwyddwr

- Cwmni Darlledu CCC

2. Cyflogaeth

- Cyflogir ei wraig yn swyddog yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru

4. Rhoddion, lletygarwch etc.

- Canwr y Byd Caerdydd – Tocyn am ddim (gan gynnwys bwffe).

10. Aelodaeth/Cadeiryddiaeth cyrff sy'n derbyn cyllid gan y Cynulliad

- Llywydd Prifysgol Cymru, Bangor. Aelod o'r Academi Gymraeg.

Sue Essex Llafur (Gogledd Caerdydd)

2. Cyflogaeth

- Darlithydd, Prifysgol Caerdydd. (Wedi'i rhyddhau o'r gwaith).
- Ei gŵr yn cael ei gyflogi fel ymgynghorydd, a hefyd yn Swyddog Polisi gyda Sefydliad Brenhinol y Syrffwyr Siartredig yng Nghymru.

4. Rhoddion, lletygarwch etc.

- Tocynnau Cwpan Rygbi'r Byd gan HTV a Nwy Prydain – Rhoddwyd sieciau o'r un gwerth â'r tocynnau i elusen.
- Cinio blynyddol Cymdeithas y Gyfraith a Llety dros nos. Lletygarwch ar gyfer gêm Cymru yn erbyn yr Eidal gan King-Sturge. Rhoddwyd cyfraniad i elusen.
- Dau docyn swper gan S4C i achlysur Wales Woman of the Year, gwerth tua £50 i gyd.

6. Nawdd Ariannol

- Costau etholiad 1999, y Blaid Lafur yn Etholaeth Gogledd Caerdydd.

7. Ymweliadau Tramor

- Ymweld â Brwsel – y Comisiwn Ewropeaidd.

Gwerth - £218.60 ar deithio; £37.41 ar gynhaliaeth.

8. Tir ac Eiddo

- Tŷ yng Nghaerdydd sydd wedi'i rentu ar hyn o bryd. (16/06/1999)
- Cyd-berchennog dau dy yng Nghaerdydd.

Delyth Evans Llafur (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

2. Cyflogaeth

- Partner: Ymgynghorydd Polisi, Cyfarwyddiaeth Bolisi'r Prif Weinidog

4. Rhoddion, lletygarwch etc.

- 7.10.2000, 3 thocyn i ymarfer llawn o Carmen gan Opera Cenedlaethol Cymru.

5. Tâl neu fudd materol arall

- Ffioedd achlysurol yn deillio o waith ar y cyfryngau.

8. Tir ac Eiddo

- Ei phartner yn rhan-berchennog ar fflat yn Llundain at ei ddefnydd ei hun. Rhywfaint o incwm o'r eiddo hwn mewn rhent.

Michael German OBE Democrat Rhyddfrydol (Dwyrain De Cymru)

1. Swydd(i) Cyfarwyddwr

- Wedi ymddiswyddo o bob swydd cyfarwyddwr gan gynnwys L'Avenir Cyf.

2. Cyflogaeth

- Fel Aelod o'r Cynulliad yn unig. Cyflogir fy merch gan Hyder.

4. Rhoddion, lletygarwch, etc.

- Tocynnau a lletygarwch i bedair gêm Cwpan Rygbi'r Byd, un gan Hyder, dau gan British Telecom ac un gan y WDA.
- Tocyn a lletygarwch ar gyfer gêm rygbi Cymru v yr Eidal gan Swyddfa'r Post.
- Tocyn a lletygarwch oddi wrth Gymdeithas Dai Halifax ar gyfer Theatr Bale'r Gogledd.
- Potel o Chwisgi oddi wrth y Conswl Gwyddelig.
- Tocyn a lletygarwch oddi wrth BT ar gyfer Cyngerdd Tina Turner.
- Cymorth gyda ffioedd cyfreithiol personol, £8,900 gan Alun Davies, £1,000 gan Chris Lines.
- Papur lapio anrhegion Nadolig ac addurniadau cysylltiedig gan The Gift Wrap Company.

5. Tâl neu fudd materol arall

- Ffi o £50 am gyflwyniad ar Dechrau Canu, Dechrau Canmol.

7. Ymweliadau tramor

- Uchel Gomisinydd Canada – ymweliad astudio ag Ontario a Quebec 23-30 Medi 2000.

9. Enwau cwmnïau

- L'Avenir Cyf.

(Cyfranddaliadau)

Brian Gibbons FRCGP Llafur (Aberafan)

- 1. Swydd(i) Cyfarwyddwr**
 - Ei wraig yn un o Gyfarwyddwyr cwmni cydweithredol cymunedol Gwynfi.
 - Ymddiriedolwr – Cronfa Ffwrnais Chwyth Rhif 5.

- 2. Cyflogaeth**
 - Ymarferydd meddygol cyffredinol nad yw'n Brif Ymarferydd.
 - Ysgrifennydd Pwyllgor Meddygol Lleol Morgannwg tan 1/7/99. Dirprwy feddyg achlysurol, yng Nghanolfan Iechyd Gwynfi yn bennaf.
 - Ei wraig yn Weithiwr Cymdeithasol a gyflogir gan Lywodraeth Leol a'r Sector Gwirfoddol.

- 4. Rhoddion, lletygarwch, etc.**
 - Llyfr ffotograffau bwrdd coffi – British Steel.
 - Rhodd ffarwelio oddi wrth Ymarferwyr Cyffredinol ym Morgannwg adeg ymddiswyddo fel ysgrifennydd y pwyllgor meddygol lleol (gwerth £712).
 - Cinio gwaith yn swyddfeydd Pwyllgor Meddygol Lleol Morgannwg, Tachwedd 1999.
 - Agorwr amlenni dur, tei Corus/ BSC – Corus/ ISTC Port Talbot.

- 6. Nawdd Ariannol**
 - Cymorth MSF ar gyfer costau'r etholiad – £1,000.
 - Cymorth ariannol ar gyfer treuliau etholiadol; £50 gan ISTC, £100 gan T&G £100 gan CWU (S.W.W), £50 gan MSF Bae Abertawe.
 - Plaid Lafur etholaeth Aberafan dan nawdd UCATT ac ISTC.

- 10. Aelodaeth/Cadeiryddiaeth cyrff sy'n derbyn cyllid gan y Cynulliad**
 - Llywodraethwr Ysgol – Ysgol Gyfun Cymer Afan.
 - Ei wraig yn Llywodraethwr ar Ysgol Fabanod a lau Abergwynfi.

William Graham YH Ceidwadwr (Dwyrain De Cymru)

- 1. Swydd(i) Cyfarwyddwr**
 - Dirprwy Gadeirydd Ymddiriedolaeth Ysgol Rougemont
 - Cyfarwyddwr yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig (Talaith Cymru).
 - Cadeirydd Ymddiriedolaeth Ysgol Rougemont.

- 2. Cyflogaeth**
 - Pennaeth Arolygwyr Siartredig Graham & Co.
 - Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd (
 - Comisiynydd Harbwr Casnewydd (ni dderbynnir tâl).
 - Ynad Heddwch (rhestr atodol) (ni dderbynnir tâl).

8. Tir ac eiddo

- 5 eiddo masnachol yng Nghasnewydd.

Janice Gregory Llafur (Ogwr)

2. Cyflogaeth

- Syr Raymond Powell AS, Ty'r Cyffredin, Llundain SW1A 0AA; Ysgrifennydd Seneddol Etholaethol tan 30 Mehefin 1999.
- Ei gwr yn Ymgynghorydd Cynllunio/Datblygu hunangyflogedig yn y Diwydiant Celfi ac yn weinyddwr rhan-amser i Janice Gregory.

6. Nawdd ariannol

- T&GWU £100 (Cyfraniad at Gronfa'r Etholiad).
- Aelod Arall o'r Blaid Gydweithredol.
- Undeb y Gweithwyr Siopau, Dosbarthu a Gwaith Perthynol (U.S.D.A.W) a Chymdeithas y Ffabiaid.

John Griffiths LLB Llafur (Dwyrain Casnewydd)

4. Rhoddion, lletygarwch, etc.

- Hyder – tocyn a lletygarwch – rownd derfynol cwpan SWALEC, Abertawe v Llanelli; S4C –
- Tocyn a lletygarwch – Canwr y Byd Caerdydd; bragdy Whitbread – 60 potel o Gwrw'r Cynulliad.
- British Telecom – lletygarwch amrywiol, yn uwch o ran cyfanswm na 0.5% o gyflog Aelod Cynulliad.
- Tocyn a lletygarwch ar gyfer Rownd Derfynol Cwpan yr FA gan BT – yn uwch na £170.
- John Collins a'i Bartneriaid – cyfreithwyr, cinio blynyddol Cymdeithas Cyfreithwyr Abertawe ynghyd â llety dros nos a brecwast iddo ef a'i wraig.

5. Tâl neu fudd materol arall

- Ffioedd achlysurol o ddarlledu a chymryd rhan mewn gwaith ymchwil/arolygon.

6. Nawdd ariannol

- Cyfrannodd y blaid gydweithredol ac Undeb yr ISTC at fy nghostau etholiad. Byddant yn parhau i wneud taliadau i'r Blaid Lafur yn fy etholaeth.

7. Ymweliadau Tramor

- Ymweliad â'r Iseldiroedd (a Rheilffordd Gul Dociau Llundain) i weld SERCO a Rheilffordd yr Iseldiroedd ar waith – SERCO/NS yn talu'r costau.

10.

Aelodaeth/Cadeiryddiaeth cyrff sy'n derbyn cyllid gan y Cynulliad Cenedlaethol

- Aelod o Gymdeithas Addysg y Gweithwyr.
- Llywodraethwr Ysgol Gyfun Duffryn, Casnewydd.

Christine Gwyther Llafur (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)

- 1. Swydd(i) Cyfarwyddwr**
 - Ei gwr - Stephen James May - yw unig Gyfarwyddwr Steve May Consulting.
- 3. Enwau Cleientau**
 - Mae gan Steve May Consulting contract cyfredol gydag Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru – cydnabyddiaeth o oddeutu £3,000.
- 4. Rhoddion, lletygarwch, etc.**
 - Cinio i'r Aelod a'i Phartner – y Gynhadledd Tatws Cynnar yn Sir Benfro, Mai 1999.
 - Dau docyn i gêm rygbi Cymru-Lloegr 2001.
- 6. Nawdd ariannol**
 - Talwyd costau'r etholiad gan y Blaid Lafur yn etholaeth Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro.
- 7. Ymweliadau Tramor**
 - Trip dros nos i Ddulyn 11-12 Chwefror i lansio INTERREG III. Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi talu amdano - tua £350.
- 8. Tir ac Eiddo**
 - 73 High Street, Doc Penfro
 - 76 Conway Road, Caerdydd
- 9. Enwau Cwmnïau (Cyfranddaliadau)**
 - Ei gwr - Stephen James May - unig Gyfarwyddwr Steve May Consulting.

Alison Halford Llafur (Delyn)

- 1. Swydd(i) Cyfarwyddwr**
 - Play Wales (Wedi ymddeol bellach)
- 2. Cyflogaeth**
 - Colofn achlysurol mewn papur newydd, ymddangosiad ar y teledu neu gyfweiliad radio.
 - Flintshire Evening Leader - colofnydd bob pythefnos.
- 4. Rhoddion, lletygarwch, etc.**
 - Cas cardiau busnes oddi wrth Ffederasiwn y Busnesau Bach
 - Car model Welsh Director i ddathlu dechreuad y Cynulliad Cenedlaethol.
 - Gwestai yn achlysurol i Clwyd Theatr Cymru (tocynnau).
- 5. Tâl neu fudd materol arall**
 - Ysgrifennodd erthygl ar gyfer papur newydd ym mis Chwefror/ Mawrth 2000 – Gwerth £350.
 - Ysgrifennu Colofn £25
- 9. Enwau cwmnïau (Cyfranddaliadau)**
 - Cyfleustodau yn unig – Nwy, BT a Manweb (lleiafswm y dewis cyfranddaliadau).
 - Cyfranddaliadau Queens Moat (Gwestai) – nifer fechan iawn.

Brian Hancock Plaid Cymru (Islwyn)

2. Cyflogaeth

- Hunan-gyflogedig (Brian Hancock Associates) Ymgynghoriaeth Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd ers Gorffennaf 1992 ac Ymarferydd Diogelwch Cofrestredig (RSP).

3. Enwau cleientau (Gwasanaethau)

- Zeon Chemicals Europe Cyf, Nippon Zeon Cyf, Zeon Europe (Dusseldorf) – gwasanaeth a ddarparwyd: Cyngor ar Iechyd, diogelwch a'r amgylchedd a pharatoi taflenni data Iechyd a diogelwch. Clive Ranger (cwmni gemwaith). CHM Gwent. GEM Cyf. Arlwy Ty Dawn – gwasanaeth a ddarparwyd: cyngor a hyfforddiant ar Iechyd, diogelwch a'r amgylchedd.

7. Ymweliadau tramor

- Gwahoddiad oddi wrth SERCO Rail/Dutch Railways i ymweld â'u cwmnïau yn Llundain ac yn yr Iseldiroedd.

9. Enwau cwmnïau (Cyfranddaliadau)

- 1200 o gyfranddaliadau BP Amoco, 100 o gyfranddaliadau Nwy Prydain, 100 o gyfranddaliadau Hyder.

10. Aelodaeth/Cadeiryddiaeth cyrff sy'n derbyn cyllid gan y Cynulliad

- Cadeirydd Clwb Athletau Newport Harriers.
- Rhiant-Lywodraethwr ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gyfun Gwynllyw, Llywodraethwr Cyfetholedig ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Casnewydd.
- Aelod o Gymdeithas Llywodraethwyr Ysgol Torfaen.
- Dirprwy-gadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgol Casnewydd.
- Aelod o Bwyllgor Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd.
- Aelod o Sefydliad y Peirianwyr Cemegol (ICHEME).
- Aelod o Sefydliad Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol (IOSH).
- Aelod o Bwyllgor Rheoli Llywodraethwyr Cymru (Cydffederasiwn Cymdeithasau Llywodraethwyr Ysgol).

Edwina Hart MBE Llafur (Gwyr)

2. Cyflogaeth

- Ei gwr yn weithiwr achos rhan amser i Edwina Hart, AC.

5. Tâl neu fudd materol arall

- Mae gan ei gwr Bensiwn y Gwasanaeth Sifil.
- Ei gwr yn Aelod o'r Tribiwnlys Cyflogaeth

6. Nawdd ariannol

- Talwyd costau'r etholiad gan y Blaid Lafur yn etholaeth Gwyr.
- Aelod o'r T&GWU ac ISTC.

10.

**Aelodaeth/Cadeiryddiaeth
cyrff sy'n derbyn cyllid gan
y Cynulliad**

- Aelod o lys Llywodraethwyr Prifysgol Cymru, Abertawe.
- Ymddiriedolwr – Gwylwyr y Glannau Lluchwr, Rhif Elusen Gofrestredig 1024113.
- Ymddiriedolwr – Ymddiriedolaeth Goffa Russell Sheppard, Rhif Elusen Gofrestredig 1082275.
- Dirprwy Lywydd Anrhydeddus Cymdeithas Longfields, Rhif Elusen Gofrestredig 501401.
- Dirprwy Lywydd Anrhydeddus Cymdeithas Alzheimer Abertawe a Dyffryn Lliw, Rhif Elusen Gofrestredig 296645.
- Dirprwy Lywydd Cymdeithas Teithwyr Rheilffyrdd Canol Cymru

Jane Hutt Llafur (Bro Morgannwg)

**4. Rhoddion, lletygarwch,
etc**

- Tocynnau a lletygarwch i gêm Cwpan Rygbi'r Byd ar 1 Hydref 1999.
- Llun o Ysbyty – gwerth yn anhysbys.

Pauline Jarman Plaid Cymru (Canol De Cymru)

10.

**Aelodaeth/Cadeiryddiaeth
cyrff sy'n derbyn cyllid gan
y Cynulliad**

- Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.
- Llys Llywodraethwyr Prifysgol Cymru, Caerdydd.
- Aelod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Cadeirydd a Llywodraethwr – Ysgol Gynradd Caegarw ac Ysgol Gyfun Aberpennar.
- Ymddiriedolwr – Cymdeithas Lles Cefnpennar a'r Cylch.

Ieuan Wyn Jones Plaid Cymru (Ynys Môn)

1. Swydd(i) Cyfarwyddwr

- Sefydliad San Steffan dros Ddemocratiaeth. (Ddim yn berthnasol bellach)

2. Cyflogaeth

- Aelod Seneddol yn San Steffan. (Ddim yn berthnasol bellach)
- Ei wraig yn arlunydd llawrydd.

**4. Rhoddion, lletygarwch
etc.**

- Lletygarwch a thocyn gan y Western Mail a'r Echo i gêm Cymru v Ffrainc, 5 Chwefror. Cinio a llety i'm gwraig a minnau gan Gynghrair Pêl Droed Cymru – prif westai yn eu Cyfarfod Blynyddol. Tocyn ar gyfer gêm Cymru v Brasil 24.5.00.
- Tocyn a lletygarwch oddi wrth WPD ar gyfer gêm Cymru v De Affrica 26.11.00.
- Tocyn a lletygarwch ar gyfer Rownd Derfynol Cwpan yr FA gan BT, 12.05.01.
- Gêm griced yn Lords. Tocyn Lloegr v Awstralia a lluniaeth 20 Gorffennaf 2001. Gwestai i

Gwmni Ernst & Young.

- 5. Tâl neu elw materol arall**
 - Taliadau achlysurol gan y cyfryngau ac fel awdur.
 - Colofn wythnosol yn y News of the World. (Ddim yn berthnasol bellach)
- 6. Nawdd Ariannol**
